# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddementia

## Cofnodion:  Rhagfyr 2019

Dydd Mawrth 3 Rhagfyr 2019, 12:00pm-1.30pm
Ystafelloedd Seminar 1 a 2, Y Pierhead
Cadeirydd: George Parish-Wallace  (yn absenoldeb Lynne Neagle AC)

Alzheimer's Society Cymru
Unedig Yn Erbyn Dementia
United Against Dementia

Yn bresennol:

Yr Athro Dawn Brooker (Prifysgol Caerwrangon),  Huw Owen, Sue Phelps, George Parish-Wallace  (Cymdeithas Alzheimer Cymru),  Dr Eleri Cubbage (Cynulliad Cymru), Rebecca Cicero (Gofal Cymdeithasol Cymru), Helen Cunliffe (GIG), Gwyneth Sweatman (Marie Curie),  Karyn Davies (Prifysgol De Cymru), Dr Rosslyn Offord (Cymdeithas Seicolegol Prydain), Dr Natalie Elliot (Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, RCSLT), Amy Kordiak (Life Story Network – wedi deialu i mewn),  Nigel Hullah  (3 Nations Dementia Learning Group), Ceri Higgins, Linda Willis, Chris Roberts, Beti George

Croesawodd **George Parish-Wallace (GPW)** bawb i'r cyfarfod a gofynnodd i bawb a oedd yn bresennol gyflwyno eu hunain, gan nodi eu henw a'u sefydliad.

### Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

- Ail-etholwyd **Lynne Neagle AC** yn Gadeirydd
- Etholwyd **George Parish-Wallace** i ddarparu ysgrifenyddiaeth (ar ran Cymdeithas Alzheimer Cymru)

### Cyflwyniad gan yr Athro Dawn Brooker (Prifysgol Caerwrangon)

Rhoddodd **yr Athro Dawn Brooker (DB)** gyflwyniad i'r grŵp trawsbleidiol.

Esboniodd DB ei bod yn Athro Astudiaethau Dementia ym Mhrifysgol Caerwrangon. Yna eglurodd DB ei bod yn gweithio mewn adran sy'n gwneud ymchwil ar gyfer astudiaethau dementia, gan ddarparu gofal ymarferol yn seiliedig ar dystiolaeth i wella bywydau pobl sy'n byw gyda dementia. Mae gan yr adran ddull amlddisgyblaethol o ymchwilio.

Mae'r gwaith y mae DB yn ei wneud o fewn yr adran yn cynnwys astudio pobl sy'n byw gyda dementia a phobl sy'n cael eu heffeithio ganddo. Yn ogystal â hynny, mae gwaith y ganolfan wedi'i integreiddio â'r rhwydweithiau DEEP a TIDE.

Yn ogystal â gwaith ymchwil, mae gan yr adran 30 o brosiectau sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd, a'r rheini'n amrywio o adolygiadau llenyddiaeth i grwpiau ymchwil ar raddfa fach. Mae pwyslais mawr yn cael ei roi ar drosglwyddo a chyfnewid gwybodaeth. Ar hyn o bryd, mae 8 myfyriwr PhD yn gweithio yn yr adran i gyd.

Yna rhoddodd DB fraslun o'r syniad o ganolfannau cwrdd ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia, canolfannau sy'n darparu gofal lleol yn barhaus, a hynny'n ofal sydd wedi'i yrru gan y gymuned ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Caiff y canolfannau cwrdd eu cynnal gan grŵp bach o staff parhaol y mae eu gwaith wedi'i liwio ar lefel lleol iawn, ac mae cyfnod o gynllunio cymunedol yn rhan o hyn.

Syniad sy’n deillio o’r Iseldiroedd yw cael canolfannau cwrdd sy'n darparu cefnogaeth gymdeithasol syml i bobl sy'n byw gyda dementia ac yn cael ei effeithio ganddo. Aeth DB ymlaen i esbonio rôl yr adran wrth iddynt ddatblygu canolfannau cyfarfod o amgylch y DU.

Rhwng 2014-2017, cyfrannodd yr adran at waith ymchwil wedi’i ariannu gan JPND i roi’r hyn a oedd wedi’i ddysgu yn yr Iseldiroedd ar waith ledled y DU, yr Eidal a Gwlad Pwyl. Darganfuwyd yn ddiweddarach drwy astudiaethau dilynol bod model y ganolfan gwrdd yn drosglwyddadwy ac y gellir ei weithredu mewn trydydd gwledydd, fel y DU a gwledydd eraill ledled Ewrop.

Roedd yr ymchwil yn golygu gwerthuso effaith canolfannau cwrdd a sut maent yn gwella ansawdd bywyd ac ymdeimlad o berthyn mewn cymunedau i bobl sy'n byw gyda dementia ac yn cael ei effeithio ganddo.

Yn 2017, sefydlwyd dwy ganolfan ymchwil yn y DU. Yn 2018, cafwyd arian ychwanegol er mwyn parhau â’r gwaith ymchwil am 3 blynedd arall. Mae ymchwil o'r fath yn helpu i gynnal gweithdai arloesol ac yn sicrhau bod canolfannau cwrdd newydd yn cael eu sefydlu mewn cymunedau ledled y DU. O ganlyniad i hynny, mae canllawiau ar sut i sefydlu canolfannau o'r fath bellach yn y broses o gael eu cyhoeddi, a bydd y rhain yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg maes o law.

Yn y 3 blynedd nesaf, bydd 15-20 o fabwysiadwyr cynnar ledled y DU. Bydd hyn yn gwella bywydau'r rheini sy'n byw gyda dementia ac yn cael ei effeithio ganddo.

Yn ogystal â hynny, mae grŵp cyfeirio cenedlaethol wedi'i sefydlu ac ar hyn o bryd mae wrthi'n chwilio am gynrychiolydd o Gymru i bwyso am ddatblygiad rhanbarthol pellach. Mae cynadleddau cenedlaethol hefyd yn cael eu trefnu ar hyn o bryd.

Yna, cyflwynodd **DB** Raglenni Cymorth y Canolfannau Cwrdd, sy'n gweithio tuag at gael diffiniad o ganolfan gwrdd sydd wedi’i sefydlu i ddiwallu anghenion y gymuned leol.

Felly, mae 11 o feini prawf gwahanol ar gyfer sefydlu canolfan gwrdd. Yn benodol, mae'r elfen ‘addasu i newid ' yn arbennig o bwysig. Mae'r meini prawf hefyd yn cynnwys gwybod beth yw dementia, gwybod pryd a ble i gael cymorth a dysgu i integreiddio addasiadau cymdeithasol er mwyn mynd i'r afael ag unigedd ac unigrwydd mewn cymunedau.

Mae ffocws clir ar ymgysylltu â chlybiau sy’n cynnal Rhaglenni Cymorth y Canolfannau Cwrdd 3 diwrnod yr wythnos rhwng 10:00-16:30. Mae clybiau o'r fath yno'n bennaf ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia a gofalwyr teuluol. Mae pwyslais ar hyblygrwydd o ran sut mae pobl yn defnyddio Rhaglenni Cymorth y Canolfannau Cwrdd.

Maen prawf allweddol arall yw bod pawb sy'n gysylltiedig â'r siwrnai dementia ‘yn hyn gyda’i gilydd'. Cwestiwn allweddol arall yw beth y gall yr unigolyn ei gynnig i Raglenni Cymorth y Canolfannau Cwrdd. Yn hynny o beth, maent yn rhoi llawer o ffocws ar gryfder y gymuned o bobl, yn hytrach na bod un model sy’n gweithio o'r brig i lawr ac sy'n gweddu i bob cymuned ac ardal yr un peth.

Yn ogystal â hynny, pwysleisiwyd bod cymunedau gwledig hefyd yn cael eu cynnwys a bod y rheini dros 65 oed, yn ogystal â’r rheini o dan 65 oed yn cael eu cynnwys. Yn hynny o beth, maent yn gynhwysol o ran oedran.

Erbyn hyn, ceir canolfannau newydd yn Aberhonddu a Llandrindod, ymysg llefydd eraill. Mae gwaith cynllunio o ran ymgysylltu â'r gymuned hefyd yn mynd rhagddo.

Dangoswyd fideo o'r enw 'Magic', a oedd yn adrodd cerdd a ysgrifennwyd gan aelod o ganolfan gwrdd Aberhonddu.

### Trafodaeth

Yn dilyn cyflwyniad DB, cychwynnodd **Sue Phelps (SP)** drafodaeth. Dywedodd SP fod y canolfannau cwrdd yn gyfleuster gwych. Dywedodd hefyd ei bod yn braf iawn gweld model sydd, er ei fod yn cyflawni'r un ethos, yn gallu cael ei fabwysiadu mewn cymuned leol. O bryd i'w gilydd, ceir bod gan ddarparwyr gwasanaethau obsesiwn ag un model penodol nad yw'n gweithio ym mhob ardal.

Mewn ymateb i hyn, dywedodd **DB** mai dyma'r ffordd iawn o fynd ati i ofalu yn y gymuned. Mae'n bosibl darparu gofal personol wedi'i deilwra, ac mae hyblygrwydd o fewn y model yn allweddol.

Yna dywedodd **Ceri Higgins (CH)** ei bod wedi mynychu un o'r gweithdai dementia yn Aberhonddu. Eglurodd ei bod yn beth da sicrhau bod cynulleidfaoedd lleol yn gallu gwneud gweithgareddau. Ychwanegodd **CH** fod hyn yn ymwneud â cheisio mynd i'r afael â ffyrdd cul o feddwl a ffyrdd anhyblyg o weithredu wrth ddarparu gofal mewn lleoliadau cymunedol.

Dywedodd **DB** y cynhelir cyfarfod cyhoeddus er mwyn sefydlu Rhaglenni Cymorth y Canolfannau Cwrdd. Yn y cyfarfodydd hyn, penderfynir p'un a oes angen sefydlu canolfan gwrdd ai peidio. Os cytunir y dylid sefydlu canolfan gwrdd, gofynnir i 12 gwirfoddolwr fod yn rhan o'r pwyllgor cynllunio i fynd i'r afael â'r saith cwestiwn allweddol ar gyfer trefnu Rhaglenni Cymorth y Canolfannau Cwrdd.

Mae cwestiynau o'r fath yn cynnwys materion fel cyllid, pobl a gweithgareddau.

Ychwanegodd **CH** fod rhai mannau y mae Rhaglenni Cymorth y Canolfannau Cwrdd yn gweithio'n dda ynddynt. Fodd bynnag, mae angen cydymffurfio â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant bob amser, a gall hyn rwystro cynnydd.

Dywedodd **Nigel Hullah (NH)** fod pobl sy'n byw gyda dementia yn ffynnu pan fyddant yn cael eu rhoi wrth wraidd gweithgareddau. Mae llwyddiant sefydliad yn ymwneud i raddau helaeth â chyflwr meddwl y sefydliad hwnnw. Rhaid i randdeiliaid fod yn rhan o'r gwaith o drefnu canolfannau cwrdd a mentrau eraill.

Ail-bwysleisiodd **DB** fod pobl sy'n byw gyda dementia a'u teuluoedd wrth wraidd Rhaglenni Cymorth y Canolfannau Cwrdd. Mae hyn yn eu gwneud yn sefydliadau hyblyg iawn y gellir eu gweithredu mewn modd sy'n cyd-fynd ag anghenion penodol gwahanol gymunedau.

Yna gofynnodd **Linda Willis (LW)** sawl aelod o'r pwyllgor a oedd yn byw gyda dementia.

Dywedodd **DB** fod y nifer yn amrywio, ond ar gyfartaledd bod o leiaf 2 aelod o'r pwyllgor yn byw gyda dementia.

Dywedodd **LW** nad oedd hyn yn nifer uchel, a bod angen cynnwys mwy o bobl sy'n byw gyda dementia gan fod gan bawb anghenion gwahanol.

Cytunodd **DB**.

Yna gofynnodd **SP** sut y gallwn gysylltu Rhaglenni Cymorth y Canolfannau Cwrdd â chymunedau deall dementia, gan ychwanegu bod gennym grwpiau a chymunedau sy'n ystyriol o ddementia yn barod. A ellid defnyddio'r rhain i ehangu'r achos am Raglenni Cymorth y Canolfannau Cwrdd?

Ychwanegodd **DB** fod y rheini sy'n gweithio ar Raglenni Cymorth y Canolfannau Cwrdd yn grŵp o bobl sydd eisoes wedi'i ffurfio, a'u bod, yn gyffredinol, yn darparu adnoddau rhagorol i gymunedau.

Yna gofynnodd **SP** pwy oedd cynrychiolydd y Gymdeithas Alzheimer ar y grŵp cyfeirio dementia.

Cadarnhaodd **DB** fod Colin Capper ar hyn o bryd yn rhan o'r grŵp.

Dywedodd **SP** y bydd y Gymdeithas Alzheimer yn dod o hyd i gynrychiolydd ar ran Cymru i fod yn rhan o'r grŵp.

## Ymchwiliad i ofal ysbyty

Yna, diweddarodd **Huw Owen (HO)** y grŵp trawsbleidiol ar yr ymchwiliad sy'n dal i fynd rhagddo ar ofal ysbyty a'r canfyddiadau hyd yma. Yng nghyfarfod blaenorol y grŵp trawsbleidiol ym mis Hydref, nodwyd mai'r grŵp trawsbleidiol oedd yn gyfrifol am gynnal 2 o'r 10 ymweliad ysbyty a gynhaliwyd ym mis Hydref.

Yna nododd **HO** fod cyfanswm o 1,268 o ymatebion wedi'u casglu o ymweliadau teithiol yr ysbyty. Yn fwy cyffredinol, cyfanswm yr ymatebion (gan gynnwys yr ymatebion ysgrifenedig) yw 1,830.

Dywedodd **HO** y byddai'n ysgrifennu'r adroddiad maes o law. Yn ogystal â hynny, nododd y byddai 3 ymweliad teithiol arall yn cael eu cynnal. Cynhelir y cyntaf ddydd Llun, 9 Rhagfyr yn Hwlffordd. Yn dilyn hynny, cynhelir ymweliad â Nevill Hall ar 6 Ionawr 2020 ac Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar 8 Ionawr 2020.
Un arsylwad allweddol hyd yma yw bod angen mwy o waith ymgysylltu â chartrefi gofal, yn enwedig gyda staff cartrefi gofal. O ganlyniad i hyn, anfonwyd arolwg wedi'i addasu at 250 o gartrefi gofal yr wythnos diwethaf.

Cynigiodd **Rebecca Cicero (RB)** helpu gyda'r agwedd hon ar yr ymchwiliad.

Dywedodd **HO** fod y grŵp trawsbleidiol yn anelu at gael 2,500 o ymatebion erbyn y dyddiad cau ar gyfer tystiolaeth. Bydd y lansiad yn cael ei gynnal yn ystod gwanwyn 2020, gyda'r terfyn amser o bosibl ar ddechrau mis Ebrill, wedi i'r logisteg fod wedi'i chwblhau. Yn ogystal â hynny, bydd yn cael ei hyrwyddo yn y cyfryngau'n fuan.

Yna trafododd **SP** gyd-destun ehangach yr ymweliadau teithiol i'r tri ysbyty ychwanegol.

Holodd **Gwyneth Sweatman (GS)** pryd oedd y dyddiad cau swyddogol ar gyfer ymatebion i'r arolwg a'r alwad am dystiolaeth.

Cadarnhaodd **HO** mai 31 Rhagfyr ydoedd.

Gofynnodd **RC** pam y cafodd cartrefi gofal eu cynnwys yn yr arolwg.

Dywedodd **HO** fod arferion gwael wedi bod o ran rhyddhau pobl, a bod llawer wedi'u derbyn o gartrefi gofal i ysbytai o ganlyniad i anallu'r gwahanol leoliadau gofal i gyfathrebu.

Dywedodd **NH** iddo fod mewn cynhadledd ddydd Gwener, 29 Tachwedd 2019 lle trafodwyd hyn. Dywedodd fod angen i gartrefi gofal ac ysbytai gyfathrebu mwy o wybodaeth am gleifion â'i gilydd. Mae staff cartrefi gofal yn aml yn gweld galw ambiwlans er mwyn cael rhywun sy'n byw gyda dementia wedi'i dderbyn i'r ysbyty fel yr opsiwn olaf gan eu bod yn ofni y byddant yn cael gofal gwael unwaith y byddant yn yr ysbyty.

O'i brofiad personol, dywedodd ei fod wedi cael tri phrofiad gwahanol iawn ar ôl cael ei dderbyn i'r ysbyty. Ychwanegodd fod gwasanaethau dementia yn cael eu hariannu'n dda. Fodd bynnag, dylai cyllid fynd i wasanaethau atal yn hytrach na thriniaethau.

Yn hynny o beth, pwysleisiodd y dylid gofalu am bobl sy'n byw gyda dementia yn yr ysbyty.

Dywedodd **Dr Rosslyn Offord (RO)** fod enghreifftiau o broblemau systemig yn y system gofal. Mae gan staff ysbytai ddiwylliant o osgoi cymryd risgiau, ac mae angen ystyried hyn wrth symud ymlaen.

Dywedodd **Dr Natalie Elliot (NE)** y cafwyd tystiolaeth o lawer o brofiadau gwael yn y broses ymchwilio. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig amlinellu meysydd o arfer da.

Dywedodd **SP** y bydd meysydd o arfer da yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad.

Pwysleisiodd **HO,** ar ôl i'r adroddiad gael ei hysgrifennu, y byddent yn ceisio cael cyfarfodydd gyda'r byrddau iechyd lleol i fynnu bod ardaloedd o arfer da yn cael eu cyflwyno ledled Cymru, yn hytrach na dim ond mewn ardaloedd penodol.

Dywedodd **NH** fod pobl yn ymateb yn well i argymhellion cadarnhaol.

Dywedodd **CH** mai'r peth pwysig oedd sicrhau bod yr adroddiad yn un cytbwys.

Dywedodd **SP** nad mater meddygol neu i'r GIG yn unig yw hwn, ond ei fod yn crynhoi'r methiannau sydd yn bodoli o ran integreiddio gwasanaethau gofal. Cafwyd tystiolaeth o hyn gyda phobl yn defnyddio ysbytai fel ffordd o gael seibiant.

Pwysleisiodd **NH** fod angen ymyrraeth gynnar yn y system gofal cymdeithasol.

Ychwanegodd **SP** na fyddai mwy na 15 o argymhellion yn yr adroddiad terfynol a fydd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, ac y byddai'r rhain i gyd yn cysylltu'n agos â Siarter yr ysbyty.

## Unrhyw fater arall

## Dyddiadau cyfarfodydd y dyfodol

Dydd Mawrth 3 Mawrth 2020

Dydd Mawrth 19 Mai 2020

Oll o 12pm – 1.30pm yn y Pierhead